COMISIWN ELUSENNAU

# Newyddion

Newyddion y CE 48 - Ionawr 2015

## Cynnwys


- Ffeiliwch mewn pryd a ffeiliwch ar-lein!
- Ydych chi wedi dewis pa SORP i'w ddilyn?
- Nawr gallwch chi ... awdurdodi ymgynghorydd elusen i anfon cyfrifon
- Fersiwn newydd o'r ymddiriedolwr hanfodol - lleisiwch eich barn
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ... ein datganiad ar sut mae'r comisiwn yn rheoleiddio codi arian
- Beth allwch chi ei ddysgu o'n gwaith achos?
- Ydych chi'n gymwys i weithredu fel ymddiriedolwr?
- Cadw twyll elusennau oddi ar y cledrau
- Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i bensiynau galwedigaethol unigol?
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ... cael ein canllawiau diweddaraf


## Ffeiliwch mewn pryd a ffeiliwch ar-lein!

Mae'n RHAID i bob elusen roi gwybod i ni am ei hincwm a'i gwariant. Dylech chi ddefnyddio'r ffurflen flynyddol i wneud hyn. Cofiwch:

- mae'n rhaid i elusennau gydag incwm blynyddol dros £25,000 anfon cyfrifon, adroddiad archwiliwr annibynnol neu archwiliwr ariannol, ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
- os yw'ch elusen yn SCE (Sefydliad Corfforedig Elusennol) mae'n RHAID i chi anfon y ffurflen flynyddol a'r cyfrifon waeth beth fo'ch incwm

Mae gan elusennau **hyd at 10 mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol** i anfon eu cyfrifon, ac i'r elusennau niferus hynny sydd â 31 Mawrth fel diwedd y flwyddyn ariannol, y dyddiad cau yw **31 Ionawr**. Pan fydd elusen yn anfon eu cyfrifon yn hwyr, mae ei phroffil ar y gofrestr yn cael ei farcio'n hwyr, gan rybuddio rhoddwyr posibl.

Cyn anfon eich gwybodaeth flynyddol:

- edrychwch ar ein Canllawiau ar adroddiadau a chyfrifon i ddeall beth mae angen i'ch elusen ei anfon
- gwyliwch ein fideo ar sut i lenwi ffurflen flynyddol eich elusen
- dechreuwch lenwi eich ffurflen - os oes gennych chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen, dylai hyn gymryd 20 munud yn unig. Mae ffeilio ar-lein yn gyflym ac yn ddiogel ac mae'n golygu bod cofnodion eich elusen yn cael eu diweddaru ar unwaith

Gall methu â ffeilio mewn pryd olygu bod yr elusen yn cael ei dileu o'r gofrestr neu, os ydym yn amau bod rhyw broblem arall yn gysylltiedig â diffyg ffeilio, bydd camau llymach yn cael eu cymryd.

## Ydych chi wedi dewis pa SORP i'w ddilyn?

Yn dilyn cyhoeddi'r ddau SORP newydd, sy'n dod i rym am y blynyddoedd ariannol yn dechrau 1 Ionawr 2015, rydym wedi cyhoeddi dwy enghraifft barod. Mae'n rhaid i bob elusen a chwmni elusennol sy'n paratoi eu cyfrifon ar sail croniadau baratoi pa SORP i'w ddilyn. Mae gwybodaeth bellach ar gael am ddim o'r micro-safle.

Mae'r enghreifftiau, sy'n dilyn y safon gyfrifyddu newydd FRS 102 a'r SORP Elusennau (FRS 102), ar gael fel lawrlwythiadau am ddim o'r micro-safle. Mae'r ddwy enghraifft yn ffuglennol.

Bydd pecyn croniadau newydd (CC17) yn barod erbyn diwedd 2015 er mwyn i elusennau ei gwblhau wrth iddynt baratoi eu cyfrifon diwedd blwyddyn. Mae'r pecyn cyfredol yn addas i elusennau sy'n adrodd o dan SORP 2005 yn unig.

Efallai y bydd ein pecyn CC16 Derbyniadau a thaliadau yn ddefnyddiol i elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ond nid ydynt yn dilyn y SORP.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar @ChtyCommission**

### Nawr gallwch chi ... awdurdodi ymgynghorydd elusen i anfon cyfrifon

Erbyn hyn rhown y dewis i gyfrifydd elusen neu asiant enwebedig arall anfon cyfrifon ar ran yr elusen drwy wasanaeth digidol. Mae'n rhaid i'r elusen ddefnyddio'r gwasanaeth newid manylion eich elusen presennol i awdurdodi hyn, yna gall y cyfrifydd neu'r asiant gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth newydd.

## Fersiwn newydd o'r ymddiriedolwr hanfodol - lleisiwch eich barn

Pryd wnaethoch chi edrych ar ein canllaw Yr ymddiriedolwr hanfodol ddiwethaf? Cyhoeddwyd drafft newydd ym mis Tachwedd sy'n:

- fyrrach
- esbonio dyletswyddau ymddiriedolwyr mewn iaith gyfoes
- esbonio sut i osgoi camgymeriadau cyffredin

Mae'n adlewyrchu ein canllawiau diweddar ar wneud penderfyniadau a gwrthdaro buddiannau. Mae esboniad newydd hefyd o'r hyn a olygwn wrth arferion da y 'dylech' chi eu dilyn: mae'r arferion da hyn yn hanfodol, nid yn ddewisol, a gallai eu hanwybyddu gael canlyniadau trychinebus i'ch elusen.

Hoffem ni gael eich barn chi:

- ydy'r fersiwn newydd yn esbonio eich cyfrifoldebau yn glir?
- ydym ni wedi cael y cydbwysedd yn iawn rhwng esbonio bod swydd ymddiriedolwr yn un cyfrifol, a sicrhau ymddiriedolwyr sy'n gweithredu'n onest ac yn rhesymol bod y gyfraith yn eu diogelu nhw?

Lleisiwch eich barn drwy gwblhau'r holiadur cyflym hwn erbyn 17 Chwefror. Bydd hyn yn ein helpu i wella'r fersiwn terfynol. Mae ymddiriedolwyr yn gwneud gwaith hollbwysig ac rydym am i'r canllaw hwn fod mor ddefnyddiol â phosibl.

### Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ... ein datganiad ar sut mae'r comisiwn yn rheoleiddio codi arian

Codi arian yw un o'r gweithgareddau mwyaf gweladwy y bydd elusennau yn ymgymryd ag ef. Gwyddom y gall y ffordd y mae ymddiriedolwyr yn ei gyflawni gael effaith arwyddocaol ar lefelau ffydd gyhoeddus a hyder mewn elusennau.

Mae ystod eang o safonau a rheolau yn gallu bod yn gymwys i ddulliau codi arian eich elusen. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ein datganiad newydd er mwyn deall:

- sut mae codi arian gan elusennau yn cael ei reoleiddio gan asiantaethau gwahanol
- sut mae cynllun hunanreoleiddio'r sector yn gweithio i orfodi safonau cydnabyddedig ar gyfer codi arian
- beth mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei wybod a'i wneud i atal problemau codi arian
- pa faterion all arwain at ein hymyrraeth ar fater codi arian

## Beth allwch chi ei ddysgu o'n gwaith achos?

Mae Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli, adroddiad ar ein hymchwiliadau a'n gwaith cydymffurfio dros y flwyddyn ddiwethaf, yn tynnu sylw at y problemau a'n harweiniodd at gychwyn naill ai ymchwiliad statudol neu achos cydymffurfio yn 2013-14. Mae camdriniaeth ariannol, camreoli ariannol a methiannau llywodraethu difrifol yn dominyddu ein gwaith achos. Am y tro cyntaf, mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r mathau o elusennau a oedd yn destun ymchwiliad neu achos cydymffurfio Gweithredol yn 2013-14.

Mae ein hadroddiadau ymchwiliad a'n hadroddiadau achos gweithredol hefyd yn rhoi enghreifftiau o ble mae pethau wedi mynd o'i le mewn elusen - mae materion yn cynnwys ymgyrchu, camreoli ariannol, diogelu, tâl ymddiriedolwyr a gwrthdaro buddiannau. Darllenwch nhw i weld pa wersi y gallwch chi eu dysgu ar gyfer rhedeg eich elusen chi.

## Ydych chi'n gymwys i weithredu fel ymddiriedolwr?

Mae'r Ddeddf Elusennau yn anghymhwyso rhai pobl rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr. Er gwaethaf bwriadau da, nid yw rhai ymddiriedolwyr yn ymwybodol eu bod nhw efallai'n gweithredu'n anghyfreithlon.

Yn y rhan fwyaf o achosion rydych chi'n cyflawni trosedd os ydych chi'n gweithredu fel ymddiriedolwr tra'ch bod chi'n anghymwys, a gall y penderfyniadau rydych chi'n cymryd rhan ynddynt fod yn annilys. Cyn penodi ymddiriedolwr newydd, dylai'r bwrdd geisio datganiad ganddynt sy'n cadarnhau nad ydynt yn anghymwys. Dylai elusen gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei hymddiriedolwyr yn gymwys i weithredu.

Os ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gweithredu fel ymddiriedolwr pan rydych yn anghymwys, gweithredwch nawr. Mae'n rhaid i chi ymddiswyddo a sicrhau bod yr elusen yn diweddaru manylion yr ymddiriedolwyr.

## Cadw twyll elusennau oddi ar y cledrau

Mae gorsafoedd rheilffordd wedi bod yn lleoliadau proffidiol ers tro byd i nifer o gasgliadau arian elusennol, ond mae cynnydd diweddar mewn casgliadau twyllodrus yn bygwth ffydd gyhoeddus mewn rhoi i elusennau.

Mewn cytundeb pwysig, mae saith o weithredwyr rheilffyrdd a gorsafoedd y genedl wedi ymuno â ni a'r Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) i gyflwyno gofynion newydd ar gyfer casgliadau elusennol.

Mae'r mesurau newydd yn cynnwys proses ymgeisio safonol ar gyfer elusennau a hoffai godi arian mewn gorsafoedd rheilffordd a monitro casgliadau elusennol yn fwy manwl.

Er mwyn codi arian, mae'n rhaid bod eich elusen wedi ffeilio ei ffurflen flynyddol mewn pryd gyda ni, gan nodi a yw'n dilyn dulliau rheoleiddio codi arian fel aelod o'r FRSB. Mewn bron 1,000 o orsafoedd rheilffordd, gan gynnwys Rheilffordd Danddaearol ac Uwchddaearol Llundain, mae'n rhaid i elusennau sy'n casglu fod yn aelodau o'r FRSB.

Er bod twyll elusennol yn parhau'n weddol anghyffredin, mae'r cytundeb hwn yn gam hollbwysig i leihau unrhyw weithgaredd troseddol o'r fath, gan ddiogelu a gwarchod y ffrwd incwm bwysig hon i elusennau.

Mae rhagor o wybodaeth am aelodaeth i'w gweld ar wefan FRSB.

## Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i bensiynau galwedigaethol unigol?

Os oes cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio gan eich elusen yna dylech chi fod yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar ddod. Mae'r Bil Trethu Pensiynau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn darparu o Ebrill 2015, o 55 oed, beth bynnag fo maint pot pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio rhywun, byddan nhw'n gallu cymryd y pensiwn sut bynnag y dymunant, yn amodol ar eu cyfradd treth incwm ymylol y flwyddyn honno.

Gall rhai aelodau o gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio geisio trosglwyddo eu hawliau cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio cronedig i gwmni yswiriant, er mwyn elwa ar y newidiadau hyn. Dylai elusennau sydd â staff mewn cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio gysylltu ag ymddiriedolwr y cynllun pensiwn neu eu hymgynghorydd proffesiynol i ddeall y goblygiadau i'w helusen os yw gweithwyr yn trosglwyddo allan o'r cynllun. Mae canllawiau ar gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio i'w gweld ar GOV.UK.

Os yw'ch elusen yn cyflogi staff ac nid yw wedi paratoi eto ar gyfer rhoi trefniadau pensiwn gweithle yn eu lle, mae'n rhaid i chi baratoi i'w darparu. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

### Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n... cael ein canllawiau diweddaraf

Rydym wedi diweddaru rhai o'n canllawiau yn ddiweddar:

- Sut i sefydlu elusen
- Mathau o elusennau: Sut i ddewis strwythur
- Sut i ysgrifennu dibenion elusennol
- Sut i ysgrifennu dogfen lywodraethol eich elusen
- Sut i wneud newidiadau i ddogfen lywodraethol eich elusen
- Newid dogfen lywodraethol drwy gynllun